## Tasg 1

# Dehongli’r ystadegau

Atebwch y cwestiynau hyn:

**Y graff**

1. Beth mae’r graff yn ei ddangos am nifer y plant oedd yn bwyta ffrwythau a llysiau yn 2007 a 2011? Beth yw’r tueddiadau dros y blynyddoedd?

2. Beth mae’r graff yn ei ddangos am nifer y plant oedd yn bwyta ffrwythau a llysiau yn 2007 a 2014?

3. Pa gasgliad gallwch chi ddod iddo wrth edrych ar y graff yma?

**Yr ystadegau**

4. Beth yw canran y merched oedd yn bwyta ffrwythau bob dydd yn 2014?

5. Beth yw canran y bechgyn oedd yn bwyta llysiau bob dydd yn 2014?

6. Beth yw canran y merched oedd yn yfed diodydd ysgafn oedd yn cynnwys siwgr bob dydd yn 2014?

7. Beth yw canran y bechgyn oedd yn yfed diodydd ysgafn heb lawer o siwgr bob dydd yn 2014?

8. Mae’r golofn olaf yn yr ystadegau’n wag.
   Cyfrifwch gyfartaledd y plant (bechgyn a merched gyda’i gilydd) ar gyfer pob rhes a’i ysgrifennu yn y grid ar y dudalen nesaf.

**Arferion bwyta plant*, 2014**

| | Bechgyn (%) | Merched (%) | Cyfartaledd (%) |
|---|---|---|---|
| **Yn bwyta'r canlynol bob dydd** | | | |
| Ffrwythau | 64 | 66 | |
| Llysiau | 56 | 56 | |
| Fferins / Losin / Melysion | 30 | 26 | |
| Sglodion | 6 | 5 | |
| Creision | 17 | 16 | |
| Llaeth sgim neu hanner sgim | 65 | 61 | |
| Llaeth cyflawn | 26 | 23 | |
| Diodydd ysgafn gyda lefel isel o siwgr | 15 | 13 | |
| Diodydd ysgafn | 9 | 8 | |
| Dŵr | 71 | 76 | |
| **Yn bwyta'r canlynol lai nag unwaith yr wythnos** | | | |
| Ffrwythau | 7 | 6 | |
| Llysiau | 5 | 4 | |
| Fferins / Losin / Melysion | 4 | 4 | |
| Sglodion | 20 | 18 | |
| Creision | 18 | 15 | |
| Llaeth sgim neu hanner sgim | 22 | 20 | |
| Llaeth cyflawn | 64 | 65 | |
| Diodydd ysgafn gyda lefel isel o siwgr | 50 | 51 | |
| Diodydd ysgafn | 62 | 64 | |
| Dŵr | 8 | 7 | |

*** Plant 4-15 oed**

9. Ydych chi'n meddwl bod y plant yn bwyta / yfed yn iach yn 2014?
Rhowch resymau dros eich ateb.

10. Oes angen i'r plant wella eu diet?
Eglurwch eich ateb gan roi rhesymau.

Trafodwch:

- Beth am eich diet chi?
- Ydych chi'n bwyta'n iach? Rhowch resymau dros eich ateb.
- Sut gallwch chi wella'ch diet?